# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-14-06)

### Dyddiad y Cyfarfod: Dydd Iau 19 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.35pm
### Lleoliad y Cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Laura Ann Jones | Dwyrain De Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr– Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Linda Whittaker | Cyfarwyddwr Tai |
| Jo Jordan | Cyfarwyddwr yr Uned Ddiogelwch Gymuned |
| Anne Stephenson | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Paul Dear | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Trish Fretton | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |

| | |
|---|---|
| Lynne Schofield | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Francois Samuel | Is-adran Tai |

**Eraill yn bresennol**

| Enw | Yn cynrychioli (os yn berthnasol) | Eitem(au) ar yr agena |
|---|---|---|
| Ann Jones AC | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 |
| Sue Essex | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 |
| Mike German | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 |
| Dai Lloyd | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 |
| David Melding | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 |
| Catherine Thomas | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 |
| Gwenda Thomas | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 |

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Virginia Hawkins | Clerc Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc Pwyllgor |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

**Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor, Aelodau’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a’r cyhoedd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Nid oedd unrhyw ddatgan buddiant.

1.3 Mae cofnod gair am air o’r cyfarfod ar gael.

1.4 Trafododd yr aelodau’r amser oedd ar gael i gwblhau’r adolygiad o Gamddefnyddio Sylweddau – Atal a chytunwyd i’w adael fel papur cymynrodd ar gyfer y trydydd Cynulliad.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**Papur: SJR(2)-13-06 (min)**

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 4 Hydref 2006

**Eitem 3: Cymunedau yn Gyntaf**

**Papur: SJR(2)-14-06(p.1)**

Yr oedd Aelodau’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Nodwyd y papur.

**Camau Gweithredu**

Awgrymodd y Gweinidog fod y Pwyllgor yn trafod ymhellach sut fyddai Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio a sut y byddai Dangosyddion Perfformiad eraill ar gyfer Llywodraeth Leol a Menter yn cael eu hymgorffori.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu’r diweddaraf ar weithio ar y cyd sy’n digwydd yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf trwy Gymru a’r cynnydd ar y gwerthuso sy’n cael ei wneud gan RCT LA.

Cytunodd y Gweinidog i i edrych ymhellach ar effeithiolrwydd gweithio trawsffiniol awdurdodau lleol o fewn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Cytunodd y Gweinidog i edrych ar ddadansoddiad amrywiaeth o fewn partneriaethau a nodi hynny wrth y Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog i archwilio ffigurau Adfywio Cymunedau yn Lloegr a nodi’r hyn mae’n ei ddarganfod wrth y Pwyllgor.

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: SJR(2)-14-06(p.2) Atodiadau A, 1**

**Camau Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i anfon nodyn i’r Pwyllgor ar drosglwyddo adnoddau ar Linell Wariant yng nghyllideb y gwasanaethau t?ac achub

Cytunodd y Gweinidog i godi’r mater gweithio trawsffiniol a chyd-weithredu ar waith adnabod cerbydau yn ei chyfarfod gyda’r Prif Gwnstabliaid ym mis Tachwedd

Cytunodd y Gweinidog i ystyried cynhyrchu llenyddiaeth Holi ac Ateb ar faterion yn ymwneud ?hai.

Cytunodd y Gweinidog i barhau i ddiweddaru’r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud ? gweithwyr ymfudol a gwaith y Ganolfan Bwylaidd yn y dyfodol.

Cytunodd y Gweinidog i ddiweddaru’r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud ?wyddogaeth y System Lloches ac Apeliadau Mewnfudo

Cytunodd y Gweinidog i drafod mater ymddeoliadau is-bostfeistri pan mae’n cyfarfod nesaf ?146;r Post Brenhinol

Cytunodd y Gweinidog i godi gyda CLILC beth a ellir ei wneud i godi proffil swyddfeydd post.

Cytunodd y Gweinidog i siarad ?146;r Prif Gwnstabliaid i gael eu barn a yw defnydd o grac coc?ar gynnydd ac adrodd yn ?’r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog i godi materion cysylltiedig ?146;r Grant Cefnogi Pobl pan mae’n cyfarfod nesaf ?LILC a Chymorth i Ferched yng Nghymru a nodi wrth y Pwyllgor.

Cytunodd y Gweinidog i adrodd ymhellach ar gartrefi anaddas ac i roi ffigurau ynglyn ? thai gwag.

### Eitem 5: Cyfarwyddyd Drafft ar Ddidyniadau mewn Cysylltiad ?hymorthdaliadau Ad-dalu Rhent

### Papur: SJR(2)-14-06(p.3) Atodiad 1, 2

Cytunwyd ar y Cyfarwyddyd Drafft.

### Camau Gweithredu

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog gyda sylwadau’r Pwyllgor ar y Cyfarwyddyd Drafft

### Eitem 6: Is ddeddfwriaeth

### Papur: SJR(2)-14-06(p.4) Atodiad 1, 2

Nodwyd y papur

**Camau Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu’r cyfarwyddyd drafft mewn cysylltiad ag adran 226 y Ddeddf Tai (Anghenion llety Sipsiwn a Chrwydriaid) i’w drafod pan fo ar gael

**Eitem 7: Deddf Arbed Ynni yn y Cartref**

**Papur: SJR(2)-14-06(p.5)**

Nodwyd y papur

**Camau Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i ystyried yr effaith posibl y bydd Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei gael ar dargedau’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref ac i gyflwyno adroddiad

Cytunodd y Gweinidog i drefnu i gop? o gyhoeddiad HECA Network a’r Atodiad Cymru Gynaliadwy gael eu dosbarthu i’r Aelodau

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu llyfryn arferion gorau i’r Pwyllgor ar adroddiadau arbed ynni awdurdodau lleol.

**Eitem 8: Gorddyled**

**Papur: SJR(2)-14-06(p.6) Atodiad 1. 2**

Nodwyd y papur

**Camau Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i roi diweddariad rheolaidd i’r Pwyllgor ar sefyllfa Farepak Hamper

Cytunodd y Gweinidog i gael manylion faint o bobl sy’n ymuno ?Undeb Credyd ac adrodd am yr hyn mae’n ei ddarganfod

**Eitem 9: Cynllun Cyflawni ar Dlodi Plant**

**Papur: SJR(2)-14-06(p.7) Atodiad**

Nodwyd y papur

Papur i’w nodi: Y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol

**Papur: SJR(2)-14-06(p.8) Atodiad**

Nodwyd y papur gyda’r amod fod amser yn cael ei neilltuo yn y rhaglen waith i drafod ei gynnwys

## Cam Gweithredu

Yr Ysgrifenyddiaeth i neilltuo amser i drafod y papur